# DYFODOL ARDDANGOS CELF

## 1.0 CYFLWYNIAD:

Dros y ddwy flynedd diwethaf, drwy broses ymgynghori mewn dwy ran, mae AOCC wedi bod yn trafod dyfodol arddangos celf. Mae'r ymatebion a gafwyd i ail ran yr ymgynghoriad, 'Golygon y Dyfodol' yn mynegi ymdeimlad cryf o'r cyfle y mae'r cyfnod hwn o drafod wedi ei greu. Maent hefyd yn cynnal yr ymateb positif y mae'r broses gyfan wedi ei ysgogi. Mae'n amlwg bod yr uchelgais i greu ateb unigryw i'r cwestiwn o 'Oriel Genedlaethol', sy'n gynaliadwy ac yn briodol i Gymru, yn un cyffredin.

Yn galonogol ddigon, roedd swmp yr ymatebion yn adlewyrchu'r elfennau adeiladol a chadarnhaol, ond yn ogystal â hynny mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r feirniadaeth a'r sylwadau cyffredinol a wnaed o ran y meysydd ar gyfer gwella neu ailfeddwl yn AOCC.

Dosbarthwyd dros 450 o gopïau o'r fersiwn printiedig o 'Golygon y Dyfodol'. Dosbarthwyd rhyw hanner o'r rheiny y tu allan i Gaerdydd, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y broses.

Sicrhaodd ymarfer postio, taflen gyhoeddusrwydd a sylw ar sawl ffurf yn y cyfryngau ymwybyddiaeth gyffredinol am y broses ledled Cymru a'r tu hwnt. Yn wahanol i Ran Un, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol. Er hynny, cododd trafodaeth a drefnwyd gan grŵp y Sefydliad Materion Cymreig yn y Gogledd, a fynychwyd gan dros 130 o bobl, ymwybyddiaeth am y drafodaeth.

Dros y ddwy ran o'r broses, cafwyd cyfraniadau ffurfiol oddi wrth 289 o unigolion a chyrff (1) Yn dilyn ail ran y broses, cafwyd 51 (57.5%) o ymatebion oddi wrth unigolion; 25 (28%) oddi wrth gyrff; a chydnabuwyd y broses gan 13 (14.5%) heb gyflwyno unrhyw sylwadau pendant. Daeth 35 (39%) o'r ymatebion o ardal Caerdydd; 33 (37%) o weddill Cymru; 8 (9%) o'r tu allan i Gymru; a daeth 13 ohonynt (14.5%) o leoliadau anhysbys (e.e. drwy e-bost).

## 2.0 THEMÂU CYFFREDINOL:

Dyma benawdau cryno'r dewisiadau a gynigiwyd yn y ddogfen:

| | |
|---|---|
| *Cynnig un* : | nodi partneriaid blaen rhanbarthol ar draws Cymru |
| *Cynnig dau* : | amlhau mynediad ac adeiladu ar ansawdd y gwaith ymchwil |
| *Cynnig tri*: | mwy o bwyslais ar rôl 'oriel genedlaethol' a'i hyrwyddo |
| *Cynnig pedwar:* | datblygu cyflwyniad thematig |
| *Cynnig pump*: | creu oriel genedlaethol ar wahân |

Ar gyfer cynnig pump, ystyriwyd y tri dewis canlynol:-

5.1 y tu allan i Gaerdydd
5.2 yng Nghaerdydd mewn adeilad ar wahân
5.3 fel 'adain ogleddol' ar wahân yn AOG

Roedd yna rai themâu oedd yn gyffredin ar draws holl ymatebion rhan dau, er nad oeddent wedi'u hoelio wrth unrhyw gynnig unigol. Roedd y rhain yn adleisio'r sylwadau a gasglwyd yn rhan un; yn gyntaf: croeso cyffredinol i'r ffaith fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal, a bod AOCC yn cymryd y mater o ddifrif. Yn ail, cadarnhad o du'r ymatebwyr bod angen cydnabod bod yna broblem hanesyddol a pharhaus gyda lefel yr adnoddau oedd yn sail i'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau gweledol yn AOCC ac yng Nghymru.

**Amserlenni**

Thema gyson oedd ei bod hi'n hanfodol bod AOCC yn dangos ei fod am ymateb mewn ffordd bositif ac adeiladol ar ôl nodi'r mater a chasglu safbwyntiau arno. Roedd sawl un yn teimlo bod yr amserlen a ddisgrifiwyd yn 'Golygon y Dyfodol' (dechrau'r gwaith dylunio yn 2004/5; dechrau codi arian yn 2006… ar ôl agor AGGA y mae gofyn i AOCC godi dros £4 miliwn o arian preifat ar ei chyfer, ac i gyd-fynd â chanmlwyddiant AOCC yn 2007; gan agor yn 2010-11) yn rhy geidwadol.

Er hynny, yn y ddogfen, pwysleisiodd AOCC beth oedd goblygiadau noddi project mawr arall ar yr adeg yma, am fod tri phroject cyfalaf ar gyfnod datblygu ar hyn o bryd yn ogystal â gobeithion i ymestyn y Ganolfan Gasgliadau, er mwyn creu Canolfan Gadwraeth a Mynediad yn Nantgarw.

**Sylwadau penodedig**

Dewisodd ychydig o bobl ganmol neu feirniadu'r materion cyffredinol o gylch agwedd AOCC at y celfyddydau cain a chymhwysol. Ar y cyfan, roedd y pwyntiau negyddol a godwyd y cyfan yn benodol iawn, ac roedd hi'n ddefnyddiol eu nodi o ran materion gweithredol, e.e. arddangos neu beidio ag arddangos gwaith artistiaid penodedig.

Cyflwynodd ychydig o'r artistiaid a ymatebodd sylwadau cymharol bersonol am arddull ac agwedd AOCC. Cysylltodd un o'r ymatebwyr sefydliadoli corff o bwys â'r angen am i ddatblygiadau newydd fod "o dan reolaeth artsitiaid".

Mae'n bwysig nodi bod hyn yn adleisio rhai o'r pwyntiau a godwyd yn 'Golygon y Dyfodol' ei hunan. Cododd y ddogfen bryder am briodoldeb gwerthoedd diwylliannol sefydliad mawr sy'n troi o gylch casgliadau yn gweithio gyda charfan benodedig o gelfyddyd fodern a chyfoes.

Yn y cyfamser, nid oedd hi'n syndod bod llawer o gefnogwyr hir-dymor a chyfranddeiliaid AOCC, wedi manteisio ar y cyfle i ganmol gwaith AOCC, ac yn enwedig dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf, ond roedd hynny'n beth i'w groesawu er hynny.

## 3.0 YMATEBION I GYNIGION UNIGOL YN Y DDOGFEN YMGYNGHORI:

Dyma'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion unigol i bob adran :

### 3.1 Cynnig 1 : rhwydwaith o leoliadau partner

Cafodd hyn groeso eang, a chyfeiriodd rai at hwn fel y 'blaenaf o blith dewisiadau cydradd' fel blaenoriaeth o blith y pum cynnig. Cydnabyddodd lawer nad tasg AOCC

ar ei ben ei hun mo hyn. Cynigiodd ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) gyflwyniad ar y cyd i'r Cynulliad Cenedlaethol i drafod cyd-fuddiannau AOCC ac CCC wrth roi o leiaf prif elfennau cynnwys Adroddiad Pratley, os nad y cyfan, ar waith o ran egwyddor.

Nododd un neu ddau o'r cyfranwyr o'r cylch proffesiynol eu gallu i fod yn gyrff partner – ac yn arbennig Oriel Mostyn, Llandudno. Soniodd rai am gyfuniadau o leoliadau sefydledig wedi'u cydategu gan rai newydd lle nad oeddynt yn bodoli ar y 'map' cyfoes.

Pwysleisiodd y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru (CMW) yn y cyswllt hwn y dylai AOCC adeiladu ar y seilwaith sydd ganddo eisoes, tra bu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn nodedig ymysg y nifer o ymatebion a ddadleuodd na ddylem ni rannu'r casgliad drwy wasgariad penodedig neu gyffredinol, gan ddewis yn hytrach cyfrwng arddangosiadau ac arddangosfeydd cymysg.

Mae hi'n bwysig, fodd bynnag, pwysleisio'r cysylltiadau a wnaed rhwng cynnig 1 a chynnig 5. Roedd llawer o 'gefnogwyr' partneriaeth yn y rhanbarthau hefyd yn cefnogi elfennau allweddol 'oriel genedlaethol', gan weld rhwydwaith bach o bartneriaid fel rhywbeth i gydategu buddsoddiad yn y brifddinas.

## 3.2 CYNIGION 2-4 : GWAITH YMCHWIL; HYRWYDDO; CYFLWYNIAD ARDDANGOSFEYDD

### 3.2.1 Gwaith Ymchwil:

Nododd y cyfranwyr nad oes digon o adnoddau na gwerth yn cael eu priodoli i waith ymchwil a'r cyfrifoldeb ehangach i ledaenu gwybodaeth ar hyn o bryd:

Cyflwynodd ein cyfeillion fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyfeillion o fyd Addysg Uwch awgrymiadau gwerthfawr o ran sut y gallai AOCC weithio gyda nhw. Cafwyd llawer o gyfraniadau gwerthfawr, oedd yn ymwneud yn benodol â chyflawni'r uchelgeisiau ym maes dysgu a mynediad.

### 3.2.2 Oriel genedlaethol ar-lein:

Cafwyd derbyniad helaeth i'r cynnig i ddatblygu gwell mynediad ar sail TG.

Bu i lawer o'r cyfranwyr gydbwyso eu cefnogaeth dros 'rith-orielau' â sylwadau am werth cyson a mwyfwy pwysig y peth 'go iawn'.

### 3.2.3 Arddangosfeydd thematig:

Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar gyflwyniad arddangosfeydd. Ychydig iawn o ddiddordeb a fynegwyd mewn 'oriel o gelf Gymreig'. Roedd mwy o ddiddordeb o lawer mewn cylchdroi arddangosfeydd a hollti'r gosodiadau didactig sefydlog.

Awgrymwyd y gallai datblygu cyflwyniadau thematig ddod â rhagor o weithiau allan o'r storfa, er mwyn creu cwmpas i fenthyg o leoedd eraill yng Nghymru. Pwysleisiodd

rhai cyfranwyr yr angen am ddehongli datblygiadau'n a phwysigrwydd symud celf o fewn, a'r tu hwnt i Gymru. Roedd y mwyafrif helaeth o blaid arddangosiadau, arddangosfeydd a dehongliadau oedd yn arbennig i Gymru, a chyfleoedd niferus i greu agwedd oedd yn amlwg felly. Cydnabuwyd bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ddiweddar yn hynny o beth.

Soniodd rhai o'r ymatebwyr am bwysigrwydd hanfodol canolfan gasgliadau sy'n briodol i'r maes gwaith hwn a meysydd gwaith eraill.

Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau o'r rhai oedd yn teimlo bod natur amlddisgyblaeth AOCC yn fantais benodol i'r rhai oedd yn teimlo i'r gwrthwyneb. Er hynny, roedd hi'n amlwg yn drwy'r hyn a ddywedwyd a thrwy ensyniad, bod proffil a hunaniaeth gyfoes casgliadau celf AOCC yn cael ei ddrysu â'r cysyniad cyffredinol o amgueddfa amlddisgyblaeth.

Cyflwynodd cydweithwyr o'r sector twristiaeth sylwadau helaeth am bwysigrwydd y gwaith hyrwyddo o gylch twristiaeth ddiwylliannol, ond pwysleisiwyd y buasai ffocws 'prifddinas' yn dwyn manteision.

### 3.3 Cynnig 5 – oriel genedlaethol newydd

<u>Y dewisiadau</u>

Mae'r canrannau'n fras. Ni roddodd llawer o'r ymatebwyr 'bleidlais' syml dros un dewis na'r llall, a mynegodd rai safbwyntiau oedd yn amodol neu'n gyfuniad o'r cynigion. Er hynny, nododd 61% o'r holl ymatebwyr mai Oriel Genedlaethol ar ei phen ei hun yng Nghaerdydd fyddai eu dewis cyntaf, gan gynnwys y rhai na chyflwynodd unrhyw safbwynt pendant o ran lleoliad penodedig yn y ddinas.

O fewn y 61% hwnnw, nododd 46% mai estyniad i adeilad AOG oedd eu dewis cyntaf, mynegodd 10% eu bod yn ffafrio adeilad ar wahân yng Nghaerdydd ac ni roddodd y 5% arall unrhyw arwydd clir un ffordd na'r llall.

I'r gwrthwyneb, nododd llawer o'r cyfranwyr yn bendant mai adain ogleddol ar safle Parc Cathays, Caerdydd oedd <u>yr unig</u> ddewis. Y rhesymau a nodwyd dros hyn oedd cynaladwyedd yn rhannol, a hefyd i gynnal y cysylltiadau â disgyblaethau eraill.

Dewisodd rhai ddweud bod presenoldeb yn y brifddinas yn flaenoriaeth, a'y dewis cyntaf oedd creu adain ogleddol yn yr adeilad sydd yno eisoes os nad oedd adeiladu Oriel Genedlaethol newydd ar safle arall yng Nghaerdydd yn gynaladwy ar sail costau refeniw.

O dan Gynnig 5, 5 ymateb yn unig (6%) wnaeth gais cyffredinol am oriel y tu allan i Gaerdydd. O'r rhain, cyflwynodd tri gynigion penodedig o blaid y syniad o gael oriel ar wahân yn eu hardaloedd eu hunain.

Y rhain oedd: Cyngor Wrecsam a 'NEWI' yn cynnig campws NEWI; Cyngor Castell-nedd/Port Talbot oedd yn cynnig lleoliad glan môr yn Aberafan; Cyngor Sir y Fflint yn

cynnig Theatr Clwyd. Cynigiodd ymateb AC unigol bod Bae Colwyn yn cael ei ystyried. Cynigiwyd un lleoliad cyffredinol pellach i gydategu'r brifddinas.

(Rhaid nodi bod trafodaethau ar y gweill eisoes gyda Wrecsam i gyfoethogi'r berthynas gydag AOCC a gychwynnwyd gan y cynllun partneriaeth 'Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing the Treasures' ymhellach. Cyflwynwyd cynigion eraill y tu allan i'r broses ffurfiol, a thrafodir y rhain isod.)

Heb wneud cynnig penodedig, cynghorodd LlGC y dylid rhoi "ystyriaeth ofalus i ogledd-ddwyrain Cymru".

Y brifddinas

Mae'n werth nodi y cafodd Oriel Genedlaethol mewn adeilad newydd yng Nghaerdydd gefnogaeth 3 (7.5%) o'r ymatebwyr o'r tu allan i Gaerdydd, a chafodd Oriel Genedlaethol mewn Adain Ogleddol newydd yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol gefnogaeth 62% o'r holl gyfranwyr o'r tu allan i Gaerdydd. Mae hyn yn adlewyrchu cymhareb y safbwyntiau a fynegwyd gan y rhai a gyfrannodd at ran un o'r broses.

Pwysleisiodd ymatebion eraill, er eu bod yn teimlo mai lleoliad yn y brifddinas fyddai orau, mai adeilad ar wahân fuasai'r datganiad cryfaf o ddechreuad newydd. Ni nodwyd bob tro a ellid gwireddu adeilad newydd fel estyniad o safle AOG.

Roedd y cynigion ar gyfer datblygiad yn y brifddinas yn aml yn cyd-fynd â datblygiadau rhanbarthol, fel a nodwyd eisoes.

Yn yr un modd, roedd rhai o'r atebion o Gaerdydd yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng corff ar sail casgliadau ac oriel gyfoes 'hyblyg', ac yn tynnu sylw at yr angen am y ddau yn y brifddinas neu yn yr ardal gyfagos.

Chwaer-sefydliadau

Cadarnhaodd ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru werth y partneriaid rhanbarthol. Roedd yn cefnogi oriel genedlaethol newydd hefyd, ond nododd y dylem ni gymryd mater 'darpariaeth sefydliadol briodol' ar gyfer celfyddyd fodern a chyfoes o ddifrif, fel y cyfeiriwyd ato yn 'Golygon y Dyfodol' ei hunan. Galwodd Cyngor y Celfyddydau ar i AOCC gyflwyno cynnig ar y cyd i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran y broses gyfan.

Nododd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn glir y byddai'n ystyried ei bod yn gyfranddeiliad posibl wrth rannu deunyddiau i'w harddangos, er bod ei chylch gorchwyl o ran casgliadau yn fwy cul a bod ganddo ddiffiniad gwahanol. Cynigiodd y dylid ystyried ei chasgliadau fel adnoddau posibl i dynnu arddangosfeydd ohonynt yn y dyfodol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Diwylliant a therminoleg sefydliadol

Mynegwyd llawer o sylwadau oedd yn awgrymu, pe bai AOCC yn cynnal cyfleuster ar wahân, neu pe na bai modd sicrhau'r ddau, dylai AOCC edrych ar yr angen am i adain y gogledd feddu ar ddiwylliant sefydliadol ar wahân.

Pwysleisiodd llawer o'r cyfranwyr bod yna ddadl yn achos yr holl opsiynau o ran a oedd yn hyn a gynigiwyd yn oriel hanesyddol ar sail casgliadau neu'n gyfleuster modern a chyfoes. Heb ofyn, cododd rhai cyfranwyr y pwynt pe bai buddsoddiad paralel yn cael ei wneud mewn cyfleuster cyfoes/modern yn y brifddinas neu ei dalgylch uniongyrchol, buasai'n cryfhau'r achos o blaid 'oriel genedlaethol' unigryw ar wahân fod yn hanesyddol ac ar sail casgliadau.

Roedd rhai yn teimlo nad oedd y ddadl o blaid oriel ar sail casgliadau mor gryf â'r ddadl o blaid arddangosfa hyblyg o gelfyddyd fodern a chyfoes. Roedd y sylw olaf hwn yn nodwedd benodedig o ymatebion unigolion yn hytrach na sefydliadau. Yn groes i hynny, lle cafwyd dymuniad cryf am agwedd ar sail casgliadau, roedd cydnabyddiaeth gydredol na fyddai hyn yn mynd i'r afael â mater cyfleuster cyfoes.

I'r gwrthwyneb, roedd yna safbwynt ei bod y posibiliadau o feithrin cysylltiadau agos rhwng yr hanesyddol, y modern a'r cyfoes, a'r celfyddydau, hanes a'r gwyddorau, ill dau yn fanteisiol.

## 4.0 CASGLIAD:

Mae'r themâu a'r materion a ddiffiniwyd gan ran un wedi cael eu hategu gan y derbyniad ehangach i ran dau. Mae'r ddwy ran gyda'i gilydd wedi creu darn sylweddol o waith sydd bellach wedi ysgogi'r angen am ymateb clir a sylweddol.

## 4.1 Y cynigion a gefnogwyd:

Mae yna gefnogaeth amlwg dros y canlynol :

datblygu'r rhaglen Partneriaeth
mentrau eraill a fydd yn dod â Chasgliadau AOCC i gynulleidfa eang
datblygu "Oriel Genedlaethol", a'r dewis pennaf yw ei lleoli yng Nghaerdydd fel 'adain ogleddol' i AOG
i'r cyfleuster hwn fod ar sail casgliadau, ac iddo gael ei ategu gan gyfleuster cyfoes na chynhelir gan AOCC, â chynnwys artistig priodol
i hyn oll gynnal celfyddyd Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol

ac felly mae'n bwysig datblygu strategaeth arfaethedig a fydd yn bodloni'r holl ddewisiadau hyn.

## 4.2 Llunio strategaeth:

Cynigir bellach y caiff dogfen strategaeth ei chynhyrchu yn debyg i ddogfen y 'Strategaeth Ddiwydiannol' a arweiniodd at gydgyfnerthu'r ffordd yr ymdrinnir â chasgliadau ALC, Pwll Mawr, Drefach ac AGGA.

Bydd y ddogfen strategaeth yn cwmpasu:

4.2.1 elfennau'r ymatebion y gellir mynd i'r afael â nhw drwy broses cynllunio corfforaethol AOCC ei hunan, wedi'u prisio, e.e. buddsoddiad mewn TG, dehongli, gwaith Partneriaeth heb fawr o fuddsoddiad cyfalaf.

4.2.2 astudiaeth hyfywedd fanwl o 'oriel genedlaethol', dan arweiniad AOCC ar sail yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **cyfleuster <u>ar sail casgliadau</u>, gan adeiladu ar y casgliadau cenedlaethol cyfoes**
- **wedi'i strwythuro i alluogi'r cysylltiadau gorau posibl â'r cyfleoedd aml-ddisgyblaeth a gynigir gan AOCC gan ymgorffori <u>celf hanesyddol, modern a chyfoes</u> Cymru a'r tu hwnt, a hynny mewn cyd-destun rhyngwladol.**

Bydd AOCC hefyd yn helpu Cyngor y Celfyddydau i archwilio hyfywedd ei gynnig am 'amgueddfa genedlaethol o gelf gyfoes' fel cydran o waith cynllunio Cyngor y Celfyddydau, a gaiff ei seilio ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- **cyfleuster <u>hyblyg</u>, heb gylch gorchwyl i adeiladu casgliad,**
- **strwythur rheoli penodedig ac annibynnol**
- **cwmpasu <u>arferion cyfoes</u> Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol.**

4.2.3 y goblygiadau ar gyfer yr arddangosfeydd a'r cyfleusterau sy'n weddill ar safle Parc Cathays

4.2.4 yr ymagwedd sefydliadol gorfforaethol at fynd i'r afael â'r hoff ddewisiadau a swyddogaeth y cyfranddeiliaid, yn enwedig Cyngor y Celfyddydau a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.2.5 y cysylltiad â datblygu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol yn Nantgarw a llunio amserlen realistaidd sy'n cydnabod y projectau datblygu sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau Cyfalaf newydd yn bosibl eu gwireddu heb unrhyw effeithiau diangen ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn AOCC.

Caiff gwaith partneriaeth ei hyrwyddo fel blaenoriaeth pennaf, er ei bod yn glir y dylai'r astudiaethau hyfywedd ar gyfer y ddwy fenter gynnwys lleoliadau posibl, y goblygiadau o ran adnoddau ac effeithiau diwylliannol ac economaidd y datblygiad tymor hwy. Bydd yr astudiaethau yn cymryd ymgynghoriad diweddar AOCC i ystyriaeth, ac yn cynnwys ymgynghori pellach ac astudiaethau technegol.

**Beth mae AOCC yn bwriadu ei wneud nesaf:**

Awgrymodd 'Golygon y Dyfodol' y dylid ystyried y garreg filltir o 2007 fel amser i 'lansio' datblygiad oriel genedlaethol.

Mae'r camau canlynol yn disgrifio amserlen bosibl, sy'n adlewyrchu'r dyddiadau gweithredu a ddisgrifiwyd yn Golygon y Dyfodol. Maent yn cymryd i ystyriaeth y ffaith fod Cyngor AOCC wedi cadarnhau bod datblygu "partneriaid yr oriel genedlaethol" yn rhanbarthol a'r gwaith cysylltiedig ar Gyfoeth Cymru Gyfan – Sharing the Treasures yn flaenoriaeth pennaf, tra bo angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu'r meddylfryd am gysyniadau 'Oriel Genedlaethol' a 'chyfleuster cenedlaethol ar gyfer celfyddyd gyfoes'.

1) Gweithdai gyda'r partneriaid a'r cyfranddeiliaid i gadarnhau **ffiniau, diffiniadau a pharamedrau,** gan gynnwys:

(a) Datblygu 'Cyfoeth Cymru Gyfan – Sharing the Treasures' drwy dynnu cymariaethau â blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau a sefydlu strategaeth ar gyfer 'partneriaid yr oriel genedlaethol' mewn lleoliadau rhanbarthol yng Nghymru *Maw – Medi 2003*

(b) Cyd-fynd â phroject cyfleuster celfyddyd gyfoes Caerdydd 2008, 'Y Depo' y disgwylir iddo agor ym Mawrth 2005 – (yn sgil y penderfyniad ar Brifddinas Diwylliant Ewrop) *Mehefin 2003*

(c) Ymrwymo cymheiriaid yn y DU ac yn rhyngwladol – gweithdai drwy gydol *hydref 2003 a 2004*

***Llunio dogfen strategaeth yn hydref 2003 i gwmpasu***

2) **Gweithredu 'partneriaid rhanbarthol'** – rhaglen beilot tair blynedd o hyd, *Ebrill 2004 – Mawrth 2007*

*3)* Ymchwilio i synergedd mewn perthynas â **datblygu cynulleidfaoedd, allymestyn ac addysg** – gweithio gyda'r tîm addysg, y partneriaid rhanbarthol a mentrau DU ac Ewrop-eang: *Mehefin 2003 – Medi 2004.*

4) Cynllunio tri maes arall o waith 'mewnol' – **y seilwaith curadurol ac addysgol** ar gyfer arddangosfeydd newydd, a dehongliadau newydd (gan gynnwys teithiau awdio a chyhoeddiadau cyffredinol); cyflwyno casgliadau ar-lein; a sicrhau brandio newydd – rhaglen tair blynedd *Ebrill 2004-2007.*

5) Astudiaeth hyfywedd/gwerthusiad o'r dewisiadau ar gyfer 'oriel genedlaethol' – yr amserlen arfaethedig:

| | |
|---|---|
| cwmpas a chynnwys | *Ionawr 2004- Mawrth 2004* |

| | |
|---|---|
| graddfa | *Medi 2004- Mehefin 2004* |
| materion refeniw | *Medi 2004- Mehefin 2004* |
| gwerthuso’r dewisiadau o ran safle | *Mawrth 2004- Medi 2004* |
| | |
| cyhoeddi canlyniadau’r uchod | *diwedd 2004/dechrau 2005* |
| comisiynu dyluniadau manwl, sicrhau caniatâd, pennu prisiau ayb | *2005* |
| cyhoeddi datblygiad y ‘canmlwyddiant’ | *2006* |

Llwyfannu’r gwaith ochr yn ochr â materion cynllun eang AOCC :

datblygiad a pherthnasau â disgyblaethau eraill e.e. archaeoleg a hanes cymdeithasol, diffinio’r gwyddorau naturiol, haf/hydref 2003, gweithredu’r arddangosfeydd dros dro 2004 – 7 **(2)**

datblygu AGG Abertawe ac oriel Hanes Cymru Amgueddfa Werin Cymru 2004-5

agor rhan 2 o’r Ganolfan Gasgliadau, Nantgarw – (*2006*)

**Michael Tooby**
**Cyfarwyddwr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol**
**30 Ebrill 2003**

Troednodiadau:

**1.0**

Cyflwynodd 30 o'r 230 o bobl a gyfrannodd at Ran Un ymateb ffurfiol pellach i 'Golygon y Dyfodol'. Cysylltwyd â phob un ohonynt er mwyn sicrhau ardystiad llawn i'r broses, a rhoddwyd wybod iddynt y câi'r safbwyntiau a fynegwyd ganddynt yn rhan un (a gofnodwyd ar drawsgrifiadau gair am air) eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol. Ymatebodd llawer o bobl hefyd drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau, drwy ysgrifennu, darlledu a chysylltiadau eraill drwy'r cyfryngau; a thrwy gysylltiadau a gohebiaeth y tu hwnt i'r broses.

Gofynnodd rhai o'r cyfranwyr am gyfrinachedd. Anfonodd eraill gyfraniadau hirfaith oedd yn trafod amrywiaeth o'r materion a godwyd. Felly mae AOCC wedi cadw tabl o ymatebion fel 'trywydd papur', ond ni fydd yn bosibl crynhoi'r ymatebion fesul pwynt bob tro. Caiff y tabl, yr ymatebion llawn a thrawgrifiadau llawn ymatebion rhan un eu cadw at ddibenion cyfeirio a gellir eu rhyddhau os gwneir cais.

Bydd rhestr gyflawn o enwau'r ymatebwyr ar gael os gwneir cais.

**2.0 Trafod disgyblaethau eraill AOG**

Roedd hi'n anochel y byddai'r drafodaeth am arddangosfeydd celf AOG yn ysgogi ystyriaeth o berthynas y rhain ag arddangosfeydd eraill AOG. Pwysleisiodd yr ymgynghoriad ar arddangos celf fanteision cysoni hunaniaeth arbennig 'oriel genedlaethol' â'r potensial am ryngweithio ag arddangosfeydd cyfagos neu integredig o ddisgyblaethau eraill.

Un o argymhellion Adolygiad Pum Mlynedd AOCC a gyflawnwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn 2000-01 oedd bod 'yr Amgueddfa a'r adran noddi yn ystyried cyfraniad arbennig yr Amgueddfa at feysydd fel yr amgylchedd, defnydd tir, mwynau ac adeiladu ac a os yna gwmpas i ddatblygu a hyrwyddo mentrau gwyddonol pellach yr Amgueddfa'.

Mae'r Cyngor wedi ardystio trafodaeth ar y themâu a'r materion hyn. Y byrdwn yw y dylai AOCC fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo ei adnoddau o bwys yn y maes hanfodol hwn a thrwy hynny cyfoethogi ei enw da a'i gyfraniad fel darparydd gwybodaeth allweddol am fioamrywiaeth ac addysg cynaladwyedd ar gyfer pobl Cymru. Mae'n bosibl iawn y bydd llawer o'r gwaith hwn yn parhau y tu hwnt i ffiniau AOG ei hunan, mewn lleoliadau a chyd-destunau lle mae ffocws ar ddehongli a chodi gwybodaeth am fioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Yn y tymor uniongyrchol, mae trafodaeth o'r fath yn cynorthwyo'r angen am ddeall hunaniaeth lleoliad Parc Cathays ar gyfer y gwyddorau naturiol yng nghyd-destun ail-gyflwyno'r casgliadau celf a'r arddangosfeydd a'r gweithgareddau cysylltiedig.

**3.0 Swyddogaeth Archaeoleg a datblygu 'Oriel Hanes Cymru'**

Rhaid i'r arddangosfeydd archaeoleg yn AOG gael eu trafod mewn ymateb i amrywiaeth o gyd-destunau.

Yn gyntaf, yr arddangosfeydd archaeoleg yw'r rhai mwyaf goroedol yn AOG. Maent yn deillio o broject penodedig iawn, am bris isel yn ystod y 1970au. Am hynny nid yw'r gwrthrychau'n cael eu cadw mewn amgylchedd ffisegol digon da, ac mae'r testun a'r deunyddiau graffeg wedi cael eu cloi i mewn, yn rhan o adeiladwaith ffisegol yr arddangosion eu hunain.

Mae angen buddsoddi yn yr arddangosfeydd diffygiol ac anhyblyg hyn. Er hynny, mae'r arddangosfeydd archaeoleg hefyd yn cyfeirio at angen sydd yr un mor berthnasol: sef diweddaru'r orielau diwylliant materol yn AWC, a darparu arddangosfa 'rhagarweiniol' sy'n gosod arddangosion AWC yng nghyd-destun gorolwg o hanes Cymru yn ôl tystiolaeth diwylliannau materol.

Wrth osod y materion hyn yng nghyd-destun datblygiad tymor-hir AOG ac AWC, mae darfyddiad dros dro'r arddangosfeydd mawr rhwng 2004-7 yn cynnig cyfle da.

Dros y cyfnod hwn, caiff arddangosfa arbrofol newydd ei chodi yn yr orielau arddangosfeydd mawr, sef orielau 35-6-7 yn AOG. Bwriedir i'r arddangosfa edrych eto ar sut y gellir dangos gwrthrychau yng nghyd-destun trafodaeth am archwilio archaeloleg lleoliadau hanesyddol yn ogystal â thrwy 'stori' cronolegol.

Bydd yr arddangosfa hefyd yn ysgogi trafodaeth am swyddogaeth gwybodaeth archaeolegol ac arteffactau wrth gyflwyno 'Oriel Hanes Cymru' a'r arddangosfeydd 'celf', yn ogystal â chyflwyno proses archaeoleg ei hunan, a thrwy hynny bwydo datblygiad orielau AOG ac AWC drwy hynny.